

## **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

### **344 - Beirniadaeth Rhyddiaith BL 12 a 13**

Daeth chwe ymgais i law a phob un wedi dehongli'r testun yn wahanol. Perthyn i ardal Y Bala mae Nia, prif gymeriad AWEL, a hiraetha am y lle. Llais sy'n bwydo ei hiselder yw Awel y teitl. Mae'r mynegiant yn oreiriog a gwallus.

Colli perthynas drwy hunan-laddiad yw cynnwys ymson LLEUAD. Ai siarad o brofiad mae'r awdur? Mae'n pwysu a mesur y digwyddiad yn bersonol a theimladwy iawn.

Mae PICE AR Y MAEN yn adrodd hanes mam newydd sy'n methu ymdopi ar ôl genedigaeth ac o ganlyniad mae ei bywyd yn dadfeilio gyda chanlyniadau trasig.

Hanner-chwaer sy'n hanner perthyn i deulu yw llais EI CHRAFANGAU. Er iddi ysu am ddianc rhag crafangau ei mam, mae "chware act y chwa'r fowr gyfrifol" a gofalu am ei chwaer fach hefyd yn grafangau. Gwneir defnydd ardderchog o dafodiaith yn y darnau ymson ac mae'r adeiladwaith yn gelfydd.

Yr ymgais fwyaf uchelgeisiol yw un RHYFEL CARTREF, alegori am berthynas Sior a'i gymydog Dewi. Wrth i Sior ymestyn ei dŷ i annex bach Dewi mae "alter ego" Dewi yn ei fwydo â dulliau chwyldro. Clyfar ac aeddfed iawn.

Colli ei mamgu i glefyd Alzheimer mae GU. Ceir diagnosis gan y doctor ac "mae clywed y geiriau fel cymryd anasthetig". Yn raddol datgela effaith y clefyd ar mamgu a'r teulu oll. Dyma waith wedi'i saernïo'n gelfydd ac mae dawn ymadrodd arbennig gan yr awdur.

Oherwydd didwylledd y dweud mae GU yn 1af, RHYFEL CARTREF yn 2il ac EI CHRAFANGAU yn 3ydd.

1af - Myfanwy Lewis    2il - Gruffudd ab Owain    3ydd - Gwenno Roberts